**P-05-976 Caniatáu priodasau sy’n cynnwys 5 o bobl (cofrestrydd/y pâr/2 dyst) yn ystod COVID 19 yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Brionni Townsend, ar ôl casglu cyfanswm o 979 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Er bod partïon priodas, yn ddealladwy, yn cael eu gohirio am resymau cadw pellter cymdeithasol, mae gallu priodi’n gyfreithlon yn bwysig i lawer o bobl, ac yn bosibl heb risg sylweddol o ledaenu COVID-19.

Mae priodas yn darparu hawliau cyfreithiol o ran etifeddiaeth, plant, penderfyniadau meddygol perthnasau agosaf, a thai. Hefyd, oherwydd argyhoeddiadau ysbrydol a moesol ynghylch cyd-fyw cyn priodi, mae llawer o gyplau sydd wedi dyweddïo yn cael eu gorfodi i fyw ar wahân wrth i ddyddiad eu priodas basio heibio.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Byddai rhoi’r cyfle i gyplau roi’r hawliau hyn i’r naill a’r llall yn eu helpu yn ystod yr amser hwn sy’n llawn straen.

Mae Newyddion y BBC wedi bod yn adrodd am gynlluniau o ran caniatáu "priodasau bach yn yr awyr agored" yng Ngogledd Iwerddon o 8 Mehefin, 2020 ymlaen.

https://www.bbc.co.uk/news/uk-northern-ireland-5280997

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru